**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

30 Ebrill 2024

## Datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16

Annwyl Jeremy a Lynne,

Hoffwn longyfarch y ddau ohonoch ar eich penodiad i Gabinet Llywodraeth Cymru yn ddiweddar. Rydw i a'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weithio gyda chi yn eich rôl newydd. Fel y gwyddoch efallai, ar 17 Ebrill 2024, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd i ddatblygiad y ddarpariaeth Gymraeg ôl-16. Cytunwyd i ymgymryd â'r gwaith hwn yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ail-flaenoriaethu cyllid fel rhan o Gyllideb 2024-25.

Yn ystod yr ymchwiliad undydd hwnnw, gwnaethom drafod tystiolaeth ysgrifenedig a siarad â chynrychiolwyr o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. O'r dystiolaeth, roedd yn amlwg i ni fod nifer o heriau a chyfleoedd sydd ynghlwm wrth yr agwedd bwysig hon ar ein taith gyda'n gilydd tuag at darged Cymraeg 2050.

Mewn ymateb i'r newidiadau yn y cyllid ar gyfer darpariaeth Gymraeg ôl-16 a wnaed yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, gwnaethom argymell y canlynol:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth am effaith toriadau i'r gyllideb ar dargedau Cymraeg 2050, ddarparu asesiad o effaith bosibl*

*penderfyniadau cyllido ar nifer y dysgwyr sy'n gallu cael gafael ar ddarpariaeth ôl-16 yn Gymraeg, ac, yn benodol, prentisiaethau."*

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, derbyniodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd yr argymhelliad hwn a chytunodd i ddarparu rhagor o wybodaeth i ni erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Edrychwn ymlaen at weld y dadansoddiad hwn maes o law a bydd yn llywio'n trafodaethau yn y cyswllt hwn. Yn y cyfamser, hoffem ofyn am y wybodaeth a ganlyn:

1. Manylion yr ymrwymiad i ail-broffilio dyraniadau'r gyllideb i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol y tu hwnt i gyfnod y Cytundeb Cydweithio, gan gynnwys unrhyw sicrwydd y bydd y lefelau ariannu yr ymrwymwyd iddynt yn y maes hwn yn cael eu hadfer yn 2025-26. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw drafodaethau i sicrhau nad yw'r lefelau ariannu y darperir ar eu cyfer yn 2024-25 yn dod yn llinellau sylfaen ariannu newydd ar gyfer darpariaeth addysg ôl-16 yng Nghymru.

2. Gwybodaeth am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i liniaru effeithiau colli momentwm o ran datblygu darpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-16, a'r ymrwymiad i ddarparu'r adnoddau gofynnol i'r Coleg Cymraeg a'r Ganolfan Genedlaethol er mwyn cynnal cynnydd yn y dyfodol.

3. Manylion am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r sector ôl-16 i ddatblygu gweithlu dwyieithog, a fyddai'n galluogi dysgwyr i ddewis cyrsiau a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Dylai hyn gynnwys braslun o'r modd y bydd y cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg, ac unrhyw gymhellion sydd ar waith, yn annog staff i ymgymryd â hyfforddiant i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

4. Byddem hefyd yn croesawu braslun o'r modd y mae'r gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu addysg yn rhyngweithio ag ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 18 yn yr **Adroddiad ar yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru**.

5. Y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith o weithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru - ac, yn benodol, y gwaith o ddatblygu cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Braslun o'r ymrwymiadau ariannu a wnaed gyda'r nod o sicrhau twf a datblygiad parhaus ym maes sgiliau a chymwysterau ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg.

7. Crynodeb o'r setiau data a'r ffynonellau data a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflenwi yn y sector ôl-16 i fonitro gofynion sgiliau a dysgu Cymraeg staff a myfyrwyr, a sut y mae'n bwriadu helpu i wella'r broses o gasglu a dadansoddi data a fydd yn llywio'r galw am addysg a hyfforddiant Cymraeg ôl-16 yn y dyfodol.

8. Gwybodaeth am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arfer da yn y gwaith o ddatblygu darpariaeth Gymraeg ôl-16 yn cael ei rannu’n lleol ac yn genedlaethol.

9. Braslun o'r asesiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru o'r galw presennol a’r galw a fydd yn y dyfodol am ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ymhlith y garfan o ddysgwyr 16-25 oed, ac esboniad o rôl y llywodraeth yn y gwaith o hybu hyn.

Byddem yn croesawu ymateb i'n cwestiynau erbyn 30 Mai 2024 fan bellaf.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.